**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Mai 11eg 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Tecwyn Evans, Gerwyn Davies

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Elen H Edwards, Gwyn Williams, Ifor G Edwards, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

53.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Ann Vaughan gysylltiad ag eitem 4 a) Cais Cynllunio 0/42687

53.2 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
53.2.1 SCIP CYMUNEDOL – roedd gweithiwr y scip yn Llangernyw yn anniddig iawn bod nifer o eitemau wedi eu gadael ar y safle noson cyn y scip a pheth ohono yn ddeunydd masnachol. PENDERFYNWYD i roi yn y Cylchlythyr ac yn y Gadlas y bydd posibilrwydd y byddwn yn colli'r scip os bydd yn cael ei gamddefnyddio. Pasiwyd i drafod yn fanwl cyn archebu scipiau y flwyddyn nesaf. Posibilrwydd arall yw gosod arwydd ar y safle.
53.2.2 PONTYDD AR GAU – derbyniodd y Clerc alwad ffôn gan Mr Dyfed Rowlands o Gyngor Conwy yn cynnig dod i gyfarfod o'r Cyngor i esbonio'r datblygiadau. Deallir bod caniatâd wedi ei roi i gael maes parcio yng nghae Y Ficerdy ger afon Dyffryn Gall a bydd y cais yn mynd i'r Adran Gyfreithiol yr wythnos nesaf. Deallir y bydd lle i tua 12 o gerbydau yno. PENDERFYNWYD i beidio gwadd Mr Rowlands ar hyn o bryd.
Bu cyfarfod safle ym Mhandy Tudur (Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Dilwyn Roberts, Gwenda Vaughan, Carol Walker a'r Clerc) gyda Mr Wil Roberts, Adran Traffig ar Ebrill 29ain ac yn dilyn hynny cafwyd cynllun yn dangos gosod arwydd dim mynediad ar waelod allt Bron Gelli. Hefyd mae arwyddion araf dros dro wedi eu gosod yn y pentref. PENDERFYNWYD i fynd ymlaen â'r cyfarfod safle gyda Mr David Jones AS ar ddydd Gwener 13eg Mai. Gellir gofyn iddo roi pwysau ar y llywodraeth i ryddhau arian i wneud gwaith ar y bont.
53.2.3 PONT HENDRE DDU – derbyniwyd drafft o'r dewisiadau i Gyngor Conwy ynglŷn ag ail-agor y bont. Roedd tri dewis i'r Cyngor a PHENDERFYNWYD mai opsiwn rhif 3 oedd yr unig ddewis synhwyrol sef adnewyddu'r bont ac ail-agor y ffordd. Mae llawer o geir yn teithio ar hyd y ffordd gan osgoi mynd trwy ganol Llangernyw ar adegau prysur o'r dydd a chan fod y fynedfa i'r A548 ger Y Stag yn beryglus.
53.2.4 TOILEDAU LLANGERNYW – teimlai Ann Vaughan yn anhapus bod pethau heb eu cwblhau – silff mewn lle anghywir, dim peth dal papur yn y toiled dynion. Ond wedi trafodaeth PENDERFYNWYD i fynd ymlaen ac agor y toiledau ddydd Gwener yn ôl ebost Steve Teale. Byddai Conwy yn glanhau y toiledau nes i Fenter Bro Cernyw gael ei sefydlu a chreu rota. Pasiwyd i ddweud wrthynt y byddai'r toiledau ar agor yn ystod oriau gwaith y cyngor sirol. Roedd y Fenter wedi derbyn pris am osod weiar mesh ar y rheiliau tu allan i'r toiled anabl a PHENDERFYNWYD bod y Cyngor Cymuned yn talu amdano ar hyn o bryd a'i fod i ddod allan o'r £1000 a glustnodwyd ar gyfer y Toiledau. Deallir hefyd y bydd posib y bydd Conwy yn adolygu'r swm a gyflwynir i bawb sy'n agor eu toiledau yn y sir.

53.3 MATERION CYNLLUNIO
53.3.1 CAIS RHIF 0/42687 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd presennol fel busnes yn gysylltiedig gydag offer amaethyddol/gwerthu/cynhyrchu a chyflenwi a lloriau caled a ffordd trac newydd yn Garthmyl, Pentre Isaf, Llangernyw gan Mr Rhys Davies – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
53.3.2 CAIS RHIF0/42602 Addasiadau a thrawsnewid adeiladau fferm i ffurfio 6 o unedau gwyliau, mynediad, parcio, ceubwll, gwaith atodol yn Hendre Ddu, Llangernyw – cais wedi ei dynnu yn ôl.

53.4 ADOLYGU CÔD YMDDYGIAD
Cafwyd golwg ar y Côd Ymddygiad Diwygiedig a chodwyd rhai cwestiynau. PENDERFYNWYD i ofyn i Un Llais Cymru a) Beth yn union yw 'Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau' a b) pam fod 'cysylltiad' wedi newid i 'fuddiannau'. Ydy hyn yn newid yr hyn ddylid ddatgelu mewn cyfarfod? Beth yn union yw ystyr buddiannau yn ôl Un Llais Cymru.

53.5 YSWIRIANT Y CYNGOR
PENDERFYNWYD i yswirio gyda AON Ltd ar gost o £371.71

53.6 AELODAETH CVSC - PENDERFYNWYD i ymaelodi am £15

53.7 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon Adroddiad yr Ombwdsmon a Pholisi Trwyddedu Conwy i'r aelodau.

53.8 MATERION LLEOL
53.8.1 Mae Kevin Roberts wedi gweld safle'r ddwy gamfa gyda Emlyn Williams.
53.8.2 Anodd gweld i ymuno â'r A548 allan o stad Parc Aelas – awgrymu gosod drych gyferbyn
53.8.3 Hefyd awgrymir gosod drych gyferbyn â'r Stag i hwyluso ymuno â'r ffordd.
53.8.4 Cyhoeddwyd darlith Amgueddfa'r Cwm gan Mr Hywel Roberts ar 24ain o Fai.
53.8.5 Tarmac sydd wedi ei osod ar fin y ffordd ger Dolgoch yn bachu gwaelod ceir.
53.8.6 Golau lamp wrth Y Graig, Llangernyw dal yn ddiffygiol.
53.8.7 Allt Capel Cefn Coch angen ei hailwynebu – gormod o lenwi tyllau wedi bod yno.
53.8.8 Atgoffwyd bawb o'r bore tacluso Llangernyw - 14eg Mai am 9.30 am

53.9 BILIAU

| | |
|---|---|
| Canolfan Bro Cernyw (Hurio) | £20 |
| D Evans (Toriad cyntaf Mynwentydd) | £360 |
| Hywel Evans (Cylchlythyr) | £10 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25 yh

*Cymeradwywyd y cofnodion …D G Davies…….* *Dyddiad ……25/5/16…………….*

Community Council Meeting was held on Wednesday, May 11th 2016 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies: Tecwyn Evans, Gerwyn Davies

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ian W Griffith, Elen H. Edwards, Gwyn Williams, Ifor G Edwards, Cllr Dilwyn O Roberts & Clerk.

53.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Ann Vaughan expressed contact with item 4) Planning Application 0/42687

53.2 ROAD ISSUES AND ENVIRONMENT
53.2.1 COMMUNITY SKIP - The Skip worker at Llangernyw was very troubled that several items had been left on the site on the eve of the skip and some of it was commercial material. RESOLVED to put in the Newsletter and Y Gadlas the possibility that we will lose the skip if it is misused. Resolved to discuss in detail before ordering skips next year. Another possibility is to place a sign at the site.
53.2.2 CLOSED BRIDGES - The Clerk received a phone call from Mr. Dyfed Rowlands from Conwy Council proposing to attend a meeting of the Council to explain the developments. It is understood that permission has been granted for a car park in the Old Vicarage field near Afon Dyffryn Gall and the application will go to the Legal Department next week. It is understood that there will be space for about 12 vehicles there. RESOLVED not to invite Mr Rowlands to a meeting at the moment.
A site meeting at Pandy Tudur (Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Dilwyn Roberts, Gwenda Vaughan, Carol Walker and Clerk) with Mr Wil Roberts, Traffic Department was held on April 29th and was followed by a plan showing 'no entry sign' to be erected at the bottom of Bron Gelli hill. And temporary 'slow' signs have been installed in the village. RESOLVED to proceed with a site meeting with Mr David Jones MP on Friday 13 May. Can ask him to put pressure on the government to release funds to do the work on the bridge.
53.2.3 HENDRE DDU BRIDGE - received a draft of the Conwy Council about options to re-open the bridge. There were three options before the County Council and RESOLVED that option number 3 was the only sensible option which was to renew the bridge and re-open the road. Many cars travel along this road to avoid going through the centre of Llangernyw avoiding the rush-hour and as the entrance to the A548 near the Stag was dangerous.
53.2.4 LLANGERNYW TOILET - Ann Vaughan felt unhappy that things had not been completed - a shelf in the wrong place, no toilet roll holder in the gents toilet. But after discussion it was RESOLVED to go ahead and open the toilets on Friday according to Steve Teale's email. Conwy Council would be cleaning the toilets until Menter Bro Cernyw was established and then setting up of a rota. Resolved to tell them that the toilets would be open during the hours of the county council. The Menter had received a price for wire mesh for installing on the railings outside the disabled toilet and RESOLVED that the Community Council would paid for it now and the money would come out of the £1000 allocated for the toilets. It is also understood that Conwy will review the amount shared out to all who open their toilets in the county.

53.3 PLANNING MATTERS
53.3.1 APPLICATION NUMBER 0/42687 Certificate of lawfulness for an existing use as a business associated with agricultural implements / sales / production and supply and hard floors and new road track at Garthmyl, Pentre Isaf, Llangernyw by Mr Rhys Davies - was unanimously RESOLVED to support the application.
53.3.2 APPLICATION NUMBER 0/42602 Alterations and conversion of farm buildings to form 6 holiday units, access, parking, cesspit, ancillary works at Hendre Ddu, Llangernyw - application has been withdrawn.

53.4 CODE OF CONDUCT REVIEW
The Revised Code of Conduct was looked at and some questions raised. RESOLVED to ask One Voice Wales a) What exactly is the 'Register of Interests of Members' and b) why 'connection' has changed to 'benefit'. Does this change what should be disclosed at a meeting? What exactly is meant by benefits according to One Voice Wales.

53.5 COUNCIL INSURANCE - RESOLVED to insure with AON Ltd at a cost of £ 371.71

53.6 MEMBERSHIP CVSC - RESOLVED to join for £ 15

53.7 CORRESPONDENCE - the Clerk to send the Ombudsman's Report and Conwy Licensing Policy to members.

53.8 LOCAL ISSUES
53.8.1 Kevin Roberts has seen the site of two stiles with Emlyn Williams.
53.8.2 Visibility is difficult joining the A548 from Parc Aelas estate - suggests placing a mirror opposite
53.8.3 Also suggested placing a mirror opposite the Stag to facilitate joining the road.
53.8.4 The Cwm Museum lecture by Mr Hywel Roberts on May 24 was announced.
53.8.5 Tarmac which has been laid on the roadside near Dolgoch scratching underneath cars.
53.8.6 Light lamp near Y Graig, Llangernyw still not working.
53.8.7 Cefn Coch hill needs to be resurfaced - too many holes have been filled there.
53.8.8 Everyone was reminded of the tidy up morning in Llangernyw - May 14 at 9.30 am

53.9 BILLS

| | |
|---|---|
| Canolfan Bro Cernyw (Hire) | £ 20 |
| D Evans (first cut to Cemetery) | £ 360 |
| Hywel Evans (Newsletter) | £ 10 |

The meeting ended at 9.25 pm

The minutes were approved ..D G Davies............................... Date….25/5/16…………….